

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Rheoliad 2

FFURFLEN WRTB1 HYSBYSIAD YN HAWLIO ARFER YR HAWL I BRYNU

Hysbysiad yn Gwneud Cais am yr Hawl i Brynu



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Hsbysiad yn Gwneud Cais am

Yr Hawl i Bryn

Bwriedir i'r hysbysiad hwn gael ei ddefnyddio gan denantiaid diogel penodol awdurdodau lleol, a chymdeithasau tai penodol a chyrrff eraill, sydd am wneud cais am yr Hawl i Brynu eu cartrefi.

Cyn llenwi pob rhan o'r hysbysiad hwn, darllenwch y nodiadau sy'n ymwneud â'r rhan honno a hefyd y pecyn gwybodaeth y dylech fod wedi'i gael gan eich landlord.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd ddarllen llyfryn Llywodraeth Cymru "Eich Hawl i Brynu Eich Cartref" sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk/Tai.

Os bydd angen cyngor pellach amoch gallwch gael help gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gallwch ymgynghori â chyfreithiwr.

Pan fyddwch wedi llenwi'r hysbysiad hwn, ewch ag ef i'ch landlord neu anfonwch ef ato drwy 'recorded delivery'. Os hyddwch yn mynd ag ef yn bersonol, gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r hysbysiad wedi'i gwblhau ar gyfer eich cofnodion.

Rhan A: Yr eiddo

Rhowch y manylion canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo yr hoffech ei brynu (gan gynnwys y cod post)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw eich landlord

Noder

Dim ond yr eiddo rydych yn ei ddal fel tenant y gallwch wneud cais am yr Hawl i'w Brynu. Nid oes gwahaniaeth a yw'n d'y neu'n fyngalo, yn fflat neu'n maisonette – gall yr Hawl i Brynu fod yn gymwys o hyd.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Rhan B: Y tenant(iaid)

Rhowch y manylion canlynol ar gyfer pob un o denantiaid yr eiddo:

Ticiwch y blwch priodol

Ai'r eiddo yw unig A yw ef neu hi am ei
gartref neu brif brynu?
gartref y tenant?

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Nodiadau

Gallwch fod yn denant os yw eich enw yn ymddangos ar y cytundeb tenantiaeth, y llyfr rhent neu'r cerdyn rhent. Os nad ydych yn siw'r a ydych yn denant, dylech ofyn i'ch landlord.

Dim ond os yr eiddo yw eich unig gartref neu eich prif gartref y gallwch wneud cais am yr Hawl i'w Brynu. Os ydych yn gwneud cais i brynu'r eiddo ar y cyd â thenantiaid eraill, dim ond un tenant sy'n gorfod bodloni'r gofyniad hwn.

Mae'n rhaid cael caniatâd unrhyw denant nad yw am brynu'r eiddo cyn i chi wneud cais am yr hawl i'w brynu. Dylai lofnodi Rhan E o'r hysbysiad hwn. Daw ei denantiaeth i ben pan fyddwch yn prynu'r eiddo.

Rhan C: Aelod(au) o'r teulu yn rhannu'r Hawl i Brynu

Os hoffech rannu'r Hawl i Brynu ag unrhyw aelod o'r teulu nad yw'n denant, rhwch ei fanylion isod:

Ai'r eiddo yw unig A yw ef neu hi am ei gartref neu brif brynu? gartref y tenant?

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Cydberthynas â'r tenant

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Cydberthynas â'r tenant

Teitl	Cyfenw	Enwau eraill	Y	N	Y	N

Cydberthynas â'r tenant

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Nodiadau

Gallwch rannu'r Hawl i Brynu â hyd at dri aelod o'r teulu nad ydynt yn denantiaid eu hunain, os yr eiddo yw eu hunig gartref neu eu prif gartref. Oni fydd eich landlord yn cytuno fel arall, mae'n rhaid i'r aelodau o'r teulu hefyd:

- fod yn w'r, yn wraig neu'n bartner sifil i chi; neu
- fod wedi byw gyda chi drwy gydol y 12 mis diwethaf.

Ystyrir bod unigolyn sy'n byw gyda chi:

- fel eich gw'r neu'ch gwraig ond nad yw'n briod â chi; neu
- fel pe baech yn bartneriaid sifil ond nad yw'n bartner sifil cofrestredig i chi, yn aelod o'r teulu.

Os nad ydych yn siw'r a yw rhywun yn cael ei ystyried yn aelod o'r teulu at y diben hwn, dylech ofyn i'ch landlord.

Rhan Ch: Pwy sy'n gymwys a gostyngiadau

Darllenwch y nodiadau hyn cyn llenwi'r tabl(au) ar dudalennau 5-9.

Os oeddech yn denant sector cyhoeddus cyn 18 Ionawr 2005, rhaid eich bod yn denant am gyfnod cymhwys o ddiwy flynedd o leiaf er mwyn bod yn gymwys i brynu'ch cartref. Rydych yn gymwys i gael gostyngiad bryd hynny hefyd.

Ni all eich gostyngiad fod yn fwy nag uchafswm y gostyngiad yng Nghymru, sef £16,000; gweler y llyfryn Eich Hawl i Brynu Eich Cartref. Fodd bynnag, yn ddarostyngedig i'r terfyn hwnnw, mae eich gostyngiad yn 32 y cant os ydych yn denant ty', a 44 y cant os ydych yn denant fflat, ynghyd ag unrhyw ostyngiad ychwanegol ar gyfer blynyddoedd cyfan ychwanegol fel tenant sector cyhoeddus. Os ydych yn prynu ty', rydych yn gymwys i gael gostyngiad ychwanegol o 1 y cant ar gyfer pob blwyddyn gyfan ychwanegol, hyd at uchafswm 60 y cant. Os ydych yn prynu fflat, rydych yn gymwys i gael gostyngiad ychwanegol o 2 y cant ar gyfer pob blwyddyn gyfan ychwanegol, hyd at uchafswm 70 y cant.

Os daethoch yn denant sector cyhoeddus am y tro cyntaf ar neu ar ôl 18 Ionawr 2005, rhaid i chi fod wedi bod yn denant am gyfnod cymhwys o bum flynedd o leiaf er mwyn bod yn gymwys i brynu eich cartref. Wedyn, rydych hefyd yn gymwys i gael gostyngiad. Ni all eich gostyngiad fod yn fwy nag uchafswm y gostyngiad yng Nghymru. Yn ddarostyngedig i'r terfyn hwnnw, mae eich gostyngiad yn 35 y cant os ydych yn denant ty', a 50 y cant os ydych yn denant fflat, ynghyd ag unrhyw ostyngiad ychwanegol am flynyddoedd cyfan ychwanegol fel tenant sector cyhoeddus. Os ydych yn prynu ty', rydych yn gymwys i gael gostyngiad ychwanegol o 1 y cant am bob blwyddyn gyfan ychwanegol, hyd at uchafswm o 60 y cant. Os ydych yn prynu fflat, rydych yn gymwys i gael gostyngiad ychwanegol o 2 y cant ar gyfer pob blwyddyn gyfan ychwanegol, hyd at uchafswm o 70 y cant.

Nid oes angen i chi fod wedi treulio'r cyfnod cymhwys cyfan yn eich cartref presennol na gyda'ch landlord presennol ac, mewn rhai amgylchiadau, gall cyfnodau y mae unigolyn arall (megis eich gw'r, eich gwraig neu'ch partner sifil) wedi'u treulio fel tenant sector cyhoeddus neu ddeiliad llety'r lluoedd arfog gyfrif tuag at eich cyfnod cymhwys.

Mae tenant sector cyhoeddus yn un o denantiaid y landlordiaid sector cyhoeddus a restrir ar ddiwedd y ffurflen hon sy'n dal yr eiddo fel ei unig gartref neu ei brif gartref. Gall hyn gynnwys cyflogai sy'n byw mewn llety a ddarperir mewn cysylltiad â'i swydd.

Mae deiliad llety'r lluoedd arfog yn unigolyn sy'n dal y llety a ddarperir ar ei gyfer fel aelod lluoedd arfog rheolaidd y Goron.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Tenantiaethau presennol a blaenorol

Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau gan bob un o denantiaid yr eiddo hwn sy'n dymuno cael ei gynnwys yn y cais hwn am yr Hawl i Brynu. Dylai pob un o'r tenantiaid

sy'n gwneud cais ar y cyd lenwi blwch "Enw'r Prynwr" ac ychwanegu'r manylion perthnasol.

Rhowch fanylion:

- Eich tenantiaeth bresennol o'r eiddo
- Mewn perthynas ag unrhyw gyfnodau yn y gorffennol pan oeddech yn denant sector cyhoeddus neu'n meddiannu llety'r lluoedd arfog.

Enw'r Prynwr:

--

Cyfnod

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluoedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluocedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluocedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Os ydych yn briod neu'n bartner sifil a'ch bod yn byw gyda'ch gw' r, eich gwraig neu'ch partner sifil.

Rhowch fanylion am unrhyw gyfnodau pan oedd eich gw' r, eich gwraig neu'ch partner sifil:

- yn denant sector cyhoeddus neu'n meddiannu llety'r lluoedd arfog
- yn briod â rhywun arall neu â phartner sifil gwahanol yn y gorffennol ac yn byw

mewn eiddo yr oedd yr unigolyn hwnnw yn ei ddal fel tenant sector cyhoeddus neu'n feddiannydd llety'r lluoedd arfog.

Ond, dim ond os ydych yn un o denantiaid yr eiddo hwn a'ch bod am gael eich cynnwys yn y cais hwn am yr Hawl i Brynu y dylech gwblhau'r manylion hyn.

Dylai pob un o'r tenantiaid sy'n gwneud cais ar y cyd lenwi blwch "Enw'r Prynwr" ac ychwanegu'r manylion perthnasol.

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluoedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Os ydych wedi gwahanu, wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu

Rhowch fanylion am unrhyw gyfnodau pan oeddech yn byw mewn eiddo yr oedd gw' r, gwraig neu bartner sifil rydych wedi gwahanu oddi wrtho/wrthi neu eich cyn w' r, eich cyn wraig neu eich cyn bartner sifil yn ei ddal fel tenant sector cyhoeddus neu feddiannydd llety'r lluoedd arfog.

Ond, dim ond os ydych yn un o denantiaid yr eiddo hwn a'ch bod am gael eich cynnwys yn y cais hwn am yr Hawl i Brynu y dylech gwblhau'r manylion hyn. Dylai pob un o'r tenantiaid sy'n gwneud cais ar y cyd lenwi blwch "Enw'r Prynwr" ac ychwanegu'r manylion perthnasol.

Enw'r Prynwr:

--

Cyfnod

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(jaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluoedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o lloedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluocedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o lloedd arfog y DU)

Os yw eich gwŷr, eich gwraig neu eich partner sifil wedi marw a'ch bod yn byw gyda'ch gilydd pan fu farw.

Rhowch fanylion am unrhyw gyfnodau pan oedd eich diweddar wŷr, gwraig neu bartner sifil:

- yn denant sector cyhoeddus neu'n feddiannydd llety'r lloedd arfog
- yn briod â rhywun arall neu â phartner sifil gwahanol yn y gorffennol ac yn byw

mewn eiddo yr oedd yr unigolyn hwnnw yn ei ddal fel tenant sector cyhoeddus neu'n feddiannydd llety'r lloedd arfog.

Ond, dim ond os ydych yn un o denantiaid yr eiddo hwn a'ch bod am gael eich cynnwys yn y cais hwn am yr Hawl i Brynu y dylech gwblhau'r manylion hyn. Dylai pob un o'r tenantiaid sy'n gwneud cais ar y cyd lenwi blwch "Enw'r Prynwr".

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluocedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luocedd arfog y DU)

Tenantiaid sydd wedi cymryd tenantiaeth sector cyhoeddus drosodd oddi wrth riant.

Mae'n bosibl y bydd tenant sydd wedi cymryd tenantiaeth sector cyhoeddus drosodd oddi wrth riant yn gallu cyfrif, er mwyn cymhwysu a chael disgownt, gyfnodau ar ôl iddo/iddi gyrraedd 16 oed, pan oedd yn byw mewn eiddo yr oedd rhiant yn ei ddal fel tenant sector cyhoeddus.

Os yw'r pennawd hwn yn gymwys i chi, rhwch fanylion am unrhyw gyfnodau:

- pan oeddech yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus, ar ôl i chi gyrraedd 16 oed.
- pan oedd unigolyn yr ydych neu yr oeddech yn briod ag ef/â hi, neu sydd neu a oedd yn bartner sifil i chi, dros 16 oed ac yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus
- pan oedd unigolyn:
 - a oedd yn arfer bod yn briod â'ch gw'r, eich gwraig neu'ch partner sifil; neu
 - a oedd yn arfer bod yn bartner sifil i'ch gw'r, eich gwraig neu'ch partner sifil,
 - dros 16 oed ac yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus.

Ond, dim ond os ydych yn un o denantiaid yr eiddo hwn a'ch bod am gael eich cynnwys yn y cais hwn am yr Hawl i Brynu y dylech gwblhau'r manylion hyn. Dylai pob un o'r tenantiaid sy'n gwneud cais ar y cyd lenwi blwch "Enw'r Prynwr" ac ychwanegu'r manylion perthnasol.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw'r Prynwr:

--

O fis/ blwyddyn	I fis/ blwyddyn	Enw'r tenant(jaid) (neu aelod o luoedd arfog y DU)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen ar gyfer llety lluocedd arfog y DU)	Enw'r landlord (neu gangen o luoedd arfog y DU)

Rhan D: Gostyngiad blaenorol

Rhowch fanylion isod am unrhyw eiddo rydych chi neu eich gwŷr, eich gwraig neu eich partner sifil, neu eich diweddar wŷr, gwraig neu bartner sifil wedi'i brynu yn flaenorol gan landlord sector cyhoeddus (gweler y rhestr o landlordiaid sector cyhoeddus ar ddiwedd y ffurflen hon). Os ydych yn gwneud cais i brynu eiddo ar y cyd ag eraill, rhowch fanylion am bob prynwr.

Cyfeiriad yr eiddo

Enw'r Landlord sector cyhoeddus

--

Dyddiad prynu

--

Enw'r prynwr blaenorol

--

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Noder

Os cawsoch ostyngiad ar eiddo a brynwyd yn y gorffennol oddi wrth landlord sector cyhoeddus, mae'n bosibl y bydd swm y gostyngiad hwnnw, llai unrhyw swm a ad-dalwyd yn ddiweddarach, yn cael ei dynnu o'r gostyngiad a ganiateir ar yr eiddo rydych yn ei brynu ar hyn o bryd

Rhan Dd: Gwelliannau tenantiaid

Rhowch y manylion canlynol am unrhyw welliannau i'r eiddo a wnaed gan denantiaid:

Disgrifiad o'r gwelliannau

Enw'r tenant a wnaeth y gwelliant

Nodiadau

Pan gaiff yr eiddo ei brisio er mwyn pennu'r pris, ni chaiff unrhyw welliannau rydych wedi'u gwneud eu cynnwys yn y prisiad. Dylech roi manylion am unrhyw welliannau y credwch y gallant effeithio ar y prisiad, e.e. gwres canolog, ffenestri dwbl, cegin osod neu swit ymolchi newydd.

Caiff gwerth gwelliannau ei anwybyddu hefyd os cawsant eu cyflawni naill ai gan:

- eich rhagflaenydd yn yr un denantiaeth (gan gynnwys tenantiaeth ragarweiniol ar ddechrau'r denantiaeth); neu
- aelod o'r teulu a oedd yn dal yr eiddo fel tenant diogel neu ragarweiniol yn union cyn i chi ei ddal o dan denantiaeth wahanol.

Os nad ydych yn siw'r a yw rhywun yn gymwys fel aelod o'r teulu at y diben hwn, dylech ofyn i'ch landlord.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Rhan E: Llofnodion: Rhybudd: Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anwir neu'n cadw gwybodaeth berthnasol yn ôl mae'n bosibl y cewch eich erlynn.

I'w gwblhau gan bob tenant sydd am brynu:

- Rwyf yn gwneud cais am yr Hawl i Brynu
- Hyd y gwn, mae'r wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad hwn yn wir.

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni
Dyddiad		Rhif ffôn yn ystod y dydd	

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni
Dyddiad		Rhif ffôn yn ystod y dydd	

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni
Dyddiad		Rhif ffôn yn ystod y dydd	

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni
Dyddiad		Rhif ffôn yn ystod y dydd	

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni
Dyddiad		Rhif ffôn yn ystod y dydd	

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

I'w gwblhau gan bob aelod o'r teulu (nad yw'n denant) sy'n rhannu'r Hawl i Brynu:

- Rwyf yn cytuno i rannu'r Hawl i Brynu
- Hyd y gwn, mae'r wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad lwn yn wir.

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

I'w gwblhau gan bob tenant nad yw am brynu:

(Daw eich tenantiaeth i ben os caiff yr eiddo ei brynu)

- Nid wyf am wneud cais am yr Hawl i Brynu
- Rwyf yn fodlon i'r prynwr/prynwyr uchod arfer yr Hawl i Brynu

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

Llofnod	Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'n rhaid i'ch landlord ymateb i'ch cais naill ai drwy dderbyn neu wrthod yr Hawl i Brynu. Os caiff yr Hawl i Brynu ei wrthod, rhaid rhoi rhesymau. Mae gan eich landlord bedair wythnos i ateb oni fydd y cyfnod rydych yn dibynnu arno i fod yn gymwys i gael yr Hawl i Brynu yn cynnwys cyfnod a dreuliodd fel tenant i landlord arall. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid i'ch landlord ymateb o fewn wyth wythnos.

Ar 6l derbyn bod gennych yr Hawl i Brynu, mae'n rhaid i'ch landlord eich hysbysu o'r telerau gwerthu arfaethedig, gan gynnwys y pris prynu. Ar yr adeg honno, mae'n rhaid i chi benderfynu a fyddwch yn bwrw ymlaen â'r hawl i brynu neu'n tynnu eich cais yn 6l.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn eich rhwymo i brynu'r eiddo. Gallwch dynnu'n 6l unrhyw bryd cyn cwblhau'r broses o brynu'r eiddo drwy hysbysu eich landlord yn ysgrifenedig.

Atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai

Yn 2011 pasiwyd Mesur Tai (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rhan 1 o'r Mesur yn rhoi cyfle i awdurdod tai lleol wneud cais i Weiniogion Cymru am ganiatâd i atal yr Hawl i Brynu mewn ardal sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai.

Caiff Gweiniogion Cymru gymeradwyo atal yr Hawl i Brynu am gyfnod cychwynnol o hyd at bum mlynedd. Mae ganddynt yr opsiwn hefyd i ymestyn y cyfnod cychwynnol hwnnw am bum mlynedd arall, sy'n golygu y gellid atal yr hawl i brynu am hyd at 10 mlynedd.

Sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi?

Os byddwch yn gwneud cais i'ch landlord i arfer yr Hawl i Brynu yn ystod cyfnod atal, bydd eich landlord yn dweud wrthyhch bod eich cais wedi'i wrthod am fod yr Hawl i Brynu wedi'i atal yn eich ardal. Bydd hefyd yn dweud wrthyhch pa mor hir bydd y cyfnod atal yn para.

At hynny, ni fyddwch yn gallu arfer yr Hawl i Brynu yn ystod y cyfnod pan fydd Gweiniogion Cymru yn ystyried cais landlord am gyfarwyddyd i atal yr Hawl i Brynu. Efallai y byddwch am gadarnhau a yw eich awdurdod lleol wedi gwneud cais i atal yr Hawl i Brynu yn eich ardal ac a fydd hynny'n effeithio arnoch chi.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Landlordiaid sector cyhoeddus (yng Nghymru gweler Rhannau Ch a D)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweinidogion Cymru (mewn rhai amgylchiadau)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (mewn rhai amgylchiadau)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (ond nid cymdeithasau tai cydweithredol) Yn

Lloegr

Cynghorau cymuned

Awdurdodau lleol

Corfforaethau trefi newydd

Cynghorau plwyf

Corfforaethau Datblygu Dinesig

Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (ond nid cymdeithasau tai cydweithredol)

Adrannau'r Llywodraeth

Gweinidogion y Goron

Yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn rhai amgylchiadau)

Byrddau trydan ardal

Awdurdodau tân ac achub

Byrddau draenio mewnol

Yr Awdurdod Hedfan Sifil

Yr Awdurdod Glo

Y Cyngor Trydan

Cyngor Chwaraeon Lloegr

Asiantaeth yr Amgylchedd

Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr

Bwrdd Cynllunio Arbennig Ardal y Llynnoedd

Awdurdod Parc Rhanbarthol Dyffryn Lee

Y Cyngor Ymchwil Meddygol

Y Cwmni Bysiau Cenedlaethol

Natural England (mewn rhai amgylchiadau)

Y Cyngor Ymchwil i'r Amgylchedd Naturiol

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Bwrdd Cydgynllunio Peak Park
Swyddfa'r Post
Y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianneg
Y Cyngor Chwaraeon
Transport for London
Trinity House (mewn rhai amgylchiadau)
Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig
Cyngor Chwaraeon y Deyrnas Unedig
Ymddiriedolaethau ac ymddiriedolaethau sefydledig y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Gweithrediaethau trafniadaeth i deithwyr
Awdurdodau'r heddlu
Awdurdodau dw'r
Sefydliad Tir Glas a Chynhyrchu Anifeiliaid yr AFRC
Y Cyngor Ymchwil i Amaethyddiaeth a Bwyd
Awdurdod Meysydd Awyr Prydain
Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
Corfforaeth Glo Prydain
Corfforaeth Nwy Prydain
Bwrdd Rheilffyrdd Prydain
Corfforaeth Dur Prydain
Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain
Y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog
Comisiynwyr Eglwysig
Y Gorfforaeth Datblygu Faerol
Y Comisiwn Trefi Newydd
Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol
Darparwr cofrestredig di-elw tai cymdeithasol nad yw'n gymdeithas dai gydweithredol
Yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau (mewn rhai amgylchiadau)
Awdurdod Llundain Fwyaf (mewn rhai amgylchiadau)
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Yn yr Alban
Cynghorau
Corfforaethau Datblygu
Cymdeithasau Tai (mewn rhai amgylchiadau)
Awdurdodau dw'r

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Comisiynwyr Goleudai'r Gogledd

Menter Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban

Bwrdd Trydan Dw'r Gogledd yr Alban

Scottish Homes

Scottish Natural Heritage

Cyngor Chwaraeon yr Alban

Bwrdd Trydan De'r Alban

Yng Ngogledd Iwerddon

Cynghorau Dosbarth

Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd

Cymdeithasau tai cofrestredig

Awdurdod Tân Gogledd Iwerddon

Gwasanaeth Trydan Gogledd Iwerddon

Gweithrediaeth Dai Gogledd Iwerddon

Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon

Cwmni Daliannol Trafnidiaeth Gogledd Iwerddon

Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon

Mewn perthynas â threfniadau tai cydweithredol yng Nghymru a Lloegr, awdurdod tai lleol, corfforaeth tref newydd neu Fwrdd Datblygu Cymru Wledig. Yn yr Alban, awdurdod tai lleol. Ac unrhyw ragflaenydd i'r landlordiaid hyn.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 2

Rheoliad 3

FFURFLEN WRTB2
HYSBYSIAD MEWN YMATEB I HAWLIAD HAWL I BRYNU GAN DENANT

Deddf Tai 1985: Adran 124
Hysbysiad mewn Ymateb i Gais
Y Tenant am yr Hawl i Brynu

Enw'r Landlord

--

Cyfeirnod y landlord

--

Dylai'r landlord ddileu unrhyw ran o'r hysbysiad hwn nad yw'n gymwys

Rhan A: Derbyn yr Hawl i Brynu

At: Enw(au) yr unigolyn/unigolion y derbynnir bod ganddynt yr Hawl i Brynu

Cyfenw	Enwau Eraill

Derbynnir bod gennych yr Hawl i Brynu'r eiddo canlynol

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Cyfeiriad yr eiddo

Derbyniwyd eich cais ar:
(nodwch y dyddiad)

--

Bydd y pris prynu yn seiliedig ar werth yr eiddo ar y farchnad ar y dyddiad hwn:

Nodyn i'r tenant

Mae'n ofynnol i'r landlord anfon hysbysiad sy'n nodi'r telerau gwerthu arfaethedig, gan gynnwys y pris prynu, atoch o fewn yr wyth wythnos nesaf (neu 12 wythnos os ydych yn prynu les yr eiddo yn hytrach na'r rhyddfrait).

Llofnodwyd ar ran y landlord

--

Teitl Swydd

--

Enw

--

Dyddiad

--

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Rhan B: Gwrthod yr Hawl i Brynu am resymau heblaw am baragraff 11 o Atodlen 5 i Ddeddf Tai 1985

At: Enw(au) yr unigolyn/unigolion y gwrthodir ei/eu Hawl i Brynu Cyfenw

Enwau eraill

Gwrthodir eich Hawl i Brynu'r eiddo canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Ym marn y landlord nid oes gennych yr Hawl i Brynu am y rheswm/rhesymau canlynol:

(Rhowch y rhesymau llawn gan gynnwys cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol).

Nodyn i'r tenant

Gwrthodwyd eich Hawl i Brynu o dan yr amgylchiadau a nodir yn Neddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd. Gwrthodwyd eich Hawl i Brynu am y rheswm/rhesymau a nodir uchod ac, felly, nid oes gennych hawl i apelio i dribiwnlys eiddo preswyl. Mae'r llyfryn "Eich Hawl i Brynu Eich Cartref: Arweiniad i denantiaid landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru" yn cynnwys canllawiau ac yn esbonio sut i gael cymorth a chynngor os ydych yn anghytuno â'r rheswm/ rhesymau a roddwyd.

Llofnodwyd ar ran y landlord

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Enw

--

Teitl Swydd

--

Dyddiad

--

Rhan C: Anheddau pobl hyspwrdd: Gwrthod yr Hawl i Brynu am y rheswm a nodir ym Mharagraff 11 o Atodlen 5 i Ddeddf Tai 1985.

At: Enw(au) yr unigolyn/unigolion y gwrthodir ei/eu Hawl i Brynu

Cyfenw(au)

Enw(au) Eraill

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Gwrthodir eich Hawl i Brynu'r eiddo canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo

Y rheswm dros wrthod yr hawl i brynu

Ym marn y landlord nid oes gennych yr hawl i brynu am fod paragraff 11 o Atodlen 5 i Ddeddf Tai 1985 yn gymwys. Golyga hyn fod yr eiddo wedi'i osod gyntaf cyn 1 Ionawr 1990, ei fod yn arbennig o addas i'w feddiannu gan bobl hyn, a'i fod wedi'i osod i'w feddiannu gan unigolyn 60 oed neu drosodd.

Llofnodwyd ar ran y landlord

--

Teitl Swydd

--

Enw

--

Dyddiad

--

Nodyn i'r tenant

Gwrthodwyd eich Hawl i Brynu am y rheswm a nodir ym mharagraff 11 o Atodlen 5 i Ddeddf Tai 1985. Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad hwn i wrthod yr Hawl i Brynu, gallwch ofyn i Weinidogion Cymru benderfynu a yw'n gywir. Gallwch wneud hynny drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru, yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Merthyr Tudful, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ. Mae'n rhaid i chi wneud eich cais i Weinidogion Cymru o fewn wyth wythnos i'r dyddiad y byddwch yn cael yr hysbysiad oddi wrth eich landlord yn gwrthod eich cais i brynu.

Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai

Yn 2011 pasiwyd Mesur Tai (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rhan 1 o'r Mesur yn rhoi cyfle i awdurdod tai lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i atal yr Hawl i Brynu mewn ardal sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai.

Caiff Gweinidogion Cymru roi caniatâd i atal yr Hawl i Brynu am hyd at bum mlynedd. Mae hefyd ganddynt yr opsiwn i estyn y cyfnod eychwynnol hwnnw am bum mlynedd arall, sy'n golygu y gellid atal yr Hawl i Brynu am hyd at 10 mlynedd. Ceir manylion am sut y mae hyn yn effeithio arnoch fel tenant yn y llyfryn "Eich Hawl i Brynu Eich Cartref: Arweiniad i denantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru".

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 3

Rheoliad 4

FFURFLEN WRTB3
HYSBYSIAD CYCHWYNNOL AM OEDI

Hysbysiad Cychwynnol o Oedi

Cyffredinol

Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan denantiaid awdurdodau Heol a chyrff penodol eraill sydd wedi gwneud cais i arfer yr Hawl i Brynu eu cartrefi ac sy'n cael eu dal yn ôl gan y landlord.

Rhowch y manylion canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo rydych am ei brynu

Enw eich Landlord

--

Nodwch ddyddiad eich cais i brynu a rhif cyfeirnod eich landlord os yw'n hysbys i chi.

Dyddiad y cais

--

Rhif Cyfeirnod y Landlord

--

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Nodwch beth y gwnaeth eich landlord ddiwethaf, hyd y gwyddoch, o ran ymdrin a'ch cais.

At y landlord

Rwyf yn cyflwyno'r hysbysiad hwn o oedi oherwydd: (ticiwch un o'r rhesymau canlynol)

- A.** nid ydych wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 124 (gan dderbyn neu wrthod yr Hawl i Brynu) eto
- B.** nid ydych wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 125 (gan roi eich barn ar y pris prynu) eto
- C.** Mae oedi ar eich rhan yn rhwystro'r gwerthiant o dan yr Hawl i Brynu

Nodiadau

Ticiwch A Os nad ydych wedi cael hysbysiad gan eich landlord (WRFB2) eto yn cadarnhau neu'n gwrthod eich Hawl i Brynu a bod y cyfnod o amser ar gyfer anfon yr hysbysiad hwnnw wedi dod i ben. Dylai ei anfon atoch o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y gwnaethoch gais i arfer yr Hawl i Brynu, ond y terfyn amser yw wyth wythnos os nad ydych wedi bod yn denant i'r landlord presennol am bum mlynedd.

Ticiwch B Os profwyd bod gennych yr Hawl i Brynu ac os oes wyth wythnos wedi mynd heibio (neu 12 wythnos os ydych yn prynu fflat neu dy' lesdaliadol), ac nad ydych wedi cael hysbysiad gan eich landlord eto yn nodi'r pris y mae'r landlord yn ystyried bod gennych yr Hawl i Brynu'r eiddo amdano.

Ticiwch C Os ydych yn cael eich rhwystro rhag prynu'r eiddo mewn rhyw ffordd arall. Er enghraifft, os ydych wedi'ch hysbysu o'r pris prynu a'ch bod wedi cyflwyno hysbysiad i'ch landlord yn nodi eich bod am fwrw ymlaen â'ch cais i arfer eich Hawl i Brynu, ond nad yw eich landlord yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at gwblhau'r gwerthiant.

Cyflwynaf hysbysiad i chi o dan adran 153A o Ddeddf Tai 1985. Y cyfnod ymateb (gweler y nodyn) yw mis o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwn.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Llofnod

Dyddiad

Cyfenw

Enwau Eraill

Noder

Y cyfnod ymateb yw'r amser rydych yn ei roi i'r landlord ymateb. Mae'n rhaid i chi roi o leiaf un mis calendr iddo. Os ydych am roi mwy o amser iddo, dilêwch "mis" a nodwch faint o amser rydych yn ei roi iddo yn lle hynny.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, ewch â hi at eich landlord neu anfonwch hi ato drwy 'recorded delivery'. Os byddwch yn mynd ag ef yn bersonol, gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r ffurflen hon a nodwch y dyddiad y gwnaethoch fynd â hi at eich landlord neu ei phostio.

Llofnodwyd ar ran y landlord – i'w lofnodi wrth dderbyn yr hysbysiad.

Teitl Swydd

Enw

Dyddiad

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 4

Rheoliad 5

FFURFLEN WRTB4
HYSBYSIAD CYCHWYNNOL AM OEDI - GWRTH-HYSBYSIAD LANDLORD

Hysbysiad Cychwynnol o Oedi –

Gwrth-hysbysiad y Llandlord

Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan landlordiaid y mae hysbysiad cychwynnol o oedi wedi'i gyflwyno iddynt lle mae'r tenant wedi nodi bod oedi ar ran y landlord yn rhwystro'r eiddo rhag cael ei werthu neu'r les rhag cael ei rhoi.

Ni fwriedir iddi gael ei defnyddio pan fydd hysbysiad y tenant yn nodi nad yw'r landlord wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 124 (gan dderbyn neu wrthod yr hawl i brynu) nac adran 125 (barn y landlord ar y pris prynu) o Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd) eto.

Enw'r Landlord

--

At: Enw(au) yr unigolyn/unigolion sy'n arfer yr Hawl i Brynu:

Cyfenw	Enwau Eraill

Cyfeiriad yr eiddo

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r gwrth-hysbysiad hwn yn ymateb i hysbysiad cychwynnol o oedi (WRTB3) a gyflwynwyd ar ____/____/____ [dyddiad]

Ar ddyddiad yr hysbysiad hwn, nid oes unrhyw gamau i ni eu cymryd er mwyn caniatáu i chi arfer eich Hawl i Brynu yn gynt, nad oeddent wedi'u cymryd pan wnaethoch gyflwyno'ch hysbysiad, ac nid oes unrhyw gamau eto i'w cymryd oherwydd:

Rhowch y rhesymau llawn, gan gynnwys y cam diwethaf a gymerwyd gan y landlord, a dywedwch beth sydd angen ei wneud er mwyn i'r tenant fedru bwrw ymlaen â phrynu'r eiddo.

Nodyn i'r Landlord

Os bydd tenant wedi cyflwyno hysbysiad i chi yn nodi bod oedi ar eich rhan yn rhwystro'r gwerthiant o dan yr Hawl i Brynu, gallwch gyflwyno'r gwrth-hysbysiad hwn o dan adran 153A(3)(b) yn esbonio eich sefyllfa. Bydd canlyniadau os nad ydych yn ymateb i'r tenant o fewn yr amser a nodwyd yn yr hysbysiad cychwynnol o oedi (WRTB3). Os nad ydych yn ymateb o fewn yr amser a nodwyd, mae'n rhaid i chi ddiwynnu o'r pris prynu swm sy'n seiliedig ar yr union rent a dalwyd yn ystod y cyfnod o oedi.

Nodyn i'r Tenant

Mae'r hysbysiad hwn yn gwadu bod y landlord yn eich rhwystro rhag prynu eich cartref. Os nad ydych yn cytuno â'r hyn a ddywed y landlord ar y ffurflen hon, efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol.

Llofnodwyd ar ran y landlord

Enw

Swydd

Dyddiad

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 5

Rheoliad 6

FFURFLEN WRTB5
HYSBYSIAD GWEITHREDOL AM OEDI

Hysbysiad Gweithredol o Oedi

Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan denant sydd wedi gwneud cais i arfer yr Hawl i Brynu ac sydd wedi cyflwyno hysbysiad cychwynnol o oedi (Ffurflen WRTB3) o dan adran 153A o Ddeddf Tai 1985. Os yw'r cyfnod o amser ar gyfer ymateb i'r hysbysiad cychwynnol wedi dod i ben ac nad yw'r landlord wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad, gall y tenant gyflwyno'r ffurflen hon. Effaith hynny yw bod yn rhaid i'r landlord ddiodynnu o'r pris prynu swm sy'n seiliedig ar yr union rent a dalwyd yn ystod y cyfnod o oedi.

Rhowch y manylion canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo rydych am ei brynu

Enw eich landlord

Nodwch y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad cychwynnol o oedi i'ch landlord a rhif cyfeirnod y landlord ar gyfer eich cais os yw'n hysbys i chi.

Dyddiad yr hysbysiad cychwynnol o oedi

Rhif cyfeirnod eich landlord

--

--

At y landlord:

Mae hysbysiad cychwynnol o oedi wedi'i gyflwyno i chi o dan Adran 153A o Ddeddf Tai 1985 ac nid oes unrhyw wrth-hysbysiad wedi'i gyflwyno o fewn y cyfnod ymateb. Bydd Adran 153B yn gymwys i rent a dalwyd o'r dyddiad, pan wnaethoch fethu â chyflwyno hysbysiad o dan adran 124 neu 125 o'r Ddeddf honno, ac mewn unrhyw achos arall, o'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad hwn.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Llofnod

Dyddiad

Cyfenw

Enwau

Nodiadau

Os bydd y tenant wedi cyflwyno hysbysiad cychwynnol o oedi (WRTB3) am nad yw'r landlord wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 124 nac adran 125 o Ddeddf Tai 1985, bydd rhent a dalwyd ar 61 y dyddiad y dylid bod wedi cyflwyno'r hysbysiad yn lleihau'r pris prynu.

Os bydd wedi'i gyflwyno oherwydd achosion eraill o oedi, bydd taliadau rhent ar 61 yr hysbysiad hwn yn lleihau'r pris prynu.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, ewch â hi at eich landlord neu anfonwch hi ato drwy 'recorded delivery'. Os byddwch yn mynd â hi'n bersonol, gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r ffurflen hon a nodwch y dyddiad y gwnaethoch fynd â hi at eich landlord neu ei phostio.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 6

Rheoliad 8

DIRYMIADAU

- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) 1986**(1)**
- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Diwygio) 1989**(2)**
- Rheoliadau Tai (Gweithdrefn Oedi yr Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) 1989**(3)**
- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Diwygio) 1992**(4)**
- Rheoliadau Tai (Gweithdrefn Oedi yr Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Diwygio) 1993**(5)**
- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Diwygio) 1993**(6)**
- Rheoliadau Tai (Gweithdrefn Oedi yr Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Ffurflenni Cymraeg) 1994**(7)**
- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Ffurflenni Cymraeg) 1994**(8)**
- Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Diwygio) 1996**(9)**

(1) O.S. 1986/2194.
(2) O.S. 1989/239.
(3) O.S. 1989/240.
(4) O.S. 1992/1707.
(5) O.S. 1993/2245.
(6) O.S. 1993/2246.
(7) O.S. 1994/2931.
(8) O.S. 1994/2932.
(9) O.S. 1996/2652.